# MAE'R DDRAIG YN HEDFAN.

HANNER CAN MIL O DROEDFEDDI
AC MAE'R AWYR YN DENAU
MELLTEN ARIAN, FEL SEITHENNYN
UWCHLAW Y CYMYLAU
GADAEL LLI O DDAGRAU GWYNION -
MAE'R TURBOS YN LLEFEN
DROS Y DWR, TUA'R GORLLEWIN
"JUMBO SEVEN FOUR SEVEN"

MAE'R DDRAIG YN HEDFAN DROS FÔR YR IWERYDD.
MAE'R DDRAIG YN HEDFAN DROS FÔR YR IWERYDD.

CHWIFIO BANER ROC CYMRAEG
YNG NGWYNTOEDD OER CYNDDEIRIOG
MAE'R DDRAIG YN GOCH A'R MÔR YN LAS
A'R CELTIAID YN WASGAROG
EFROG NEWYDD AR Y GORWEL -
GOLEUADAU YN TANIO
J.F.K. - Y SŴN A'R PRYSURDEB
MAE'R ERYR WEDI GLANIO.

MAE'R DDRAIG YN HEDFAN DROS FÔR YR IWERYDD
MAE'R DDRAIG YN HEDFAN DROS FÔR YR IWERYDD

# ROC AR Y RADIO "in G"

INTRO

C sus4 ↘ C  G sus4 ↘ G

F F F C

Verse 1

Blues in G : G x 3 (pause after 1st)

D G
MAE'R BAND YN CHWARAE TAN YR ORIAU MÂN

D G
MAE'R ORSAF RADIO YN CHWARAE EU CÂN

C Am G
MAE'R MIWSIG YN SWYNO FEL CYFFUR ~~[crossed out]~~ HUD.

D C G
BREUDDWYDION MELUS YN DY WELU CLUD.

Chorus (2 BARS)

G D C
A WYT TI'N CLYWED Y ROC AR Y RADIO ?

G D C
A WYT TI'N CLYWED Y ROC AR Y RADIO ?

VERSE 2

Blues in G : ~~[crossed out]~~ G x 2

D G
RWYT TI'N DEFFRO YN Y BORE - TROI Y RADIO MLAEN

D G
AC YN CLYWED Y NEWYDDION AM Y GITARYDD FLAEN.

C Am G
MAE SWN Y BAND YN LLOSGI TI FEL FFLAM

D C G
YN GWEDDI ARNAT : ~~[crossed out]~~ TRO FE LAN! TRO FE LAN!

Chorus (2 BARS)

G D C
A WYT TI'N CLYWED Y ROC AR Y RADIO ?

G D C
A WYT TI'N CLYWED Y ROC AR Y RADIO ?

Solo

~~[crossed out]~~ G C G D

G Bm C C♯ D — ~~[crossed out]~~ G

Chorus (4 BARS)

Em D C D GGGG

---

ARIOLA ! AR5056
S1 B2
Dur 3'18"
Badende Radio
Krokus.

Virgin Music Ltd.
01 229 1282.
Music Publishers

Maniatts
Ext 5.
Maria Forte.
Michelle
General Manager
Martin Humphreys

95-99
Ladbroke Gr.
W11.

Krokus
Ariola Eurodisc Ltd
48 Maddox St W1R 9PB

Free + Virgin Agency
PO Box 914
CH-8039 Zurich Switz.

Fan Club
Schörenwerdstrasse 15
CH-8952 Schlieren Switz.

# COLLASANT EU GWAED.

CELFYDDYD O HYD MEWN HEDD
YN CODI DAN NAWDD TANGNEFEDD

RWYT TI'N WYLO YN Y FFÔS YN SGWENNU AT DY FAM
MAE HI'N DISGWYL NÔL YNG NGHYMRU AM Y TELEGRAM
RWYT TI'N ESTYN AM Y GLOYN BYW A'I ADAIN WEN
OND DAW'R BWLED CHWIM O'R GWN SY'N TANIO UWCH DY BEN

SEGURDOD YW CLOD Y CLEDD
A RHWD YW EI ANRHYDEDD

MAE 'NA LAIS YN DY BEN SYDD YN GWEIDDI:
"CER YN ÔL! CER YN ÔL!"
OND YMLAEN YR EI DI DAN WEDDIO
RHAI STYFNIG AR Y NAW YW'R RHAI FFÔL.

---

FEL EMYN MEWN ANGLADD I FEIRW YR YMLADD
MAE'R CLYCHAU YN DYSTION I'R GWARTH
DAW CÂN Y GYLFEINIR DROS FAESYDD Y PABIS
FEL SWIGOD AR WYNEB Y TARTH

REBELWYR HEB ACHOS, GWASTRAFFU EU HEINIOES
OND PWY SYDD YN LLUNIO EU FFAWD?
MAE POPETH YN DAWEL AR RENG FLAEN Y GORLLEWIN
OND FORY CEI YMLADD A'TH FRAWD!

---

Celfyddyd o hyd mewn hedd-aed yn uwch
O dan nawdd tangnefedd;
Segurdod yw clod y cledd
A rhwd yw ei anrhydedd. EMRYS.

# VIVE LA LIBERTÉ

INTRO Em
YN UNIG YN DY GELL — F#m7 Em D A F#m7
YMHELL O BOBMAN
DISGWYL AM Y WAWR — Bm Bm7 D Bm A
DOES DIM FFORDD ALLAN. — Em

Em Dbm B
(1) COFIO SEINIAU'R LLAFN YN LLITHRO
Dbm A Bm
HOLLTI MACHLUD NEITHIWR
D Dbm Bm
GWAEDLUO OEDD Y GUILLOTINE
Abm D
YN NGHYSGOD YR ARTEITHIWR
Em B
CANA'R CLYCHIAU YN Y CARCHAR
Dbm A
LLAW YN TROI YR ALLWEDD
Dbm Bm
PRYDER YN DY LYGAID DI
Abm D
MAE 'DAMSER WEDI CYRRAEDD

BmAF#mE, BmAF#mE
BmAF#mE, F#mEBm) x2

Em C D+E A F#m7 Esus4 B B7/D# Em C D+E A
CYT VIVE LA LIBERTÉ, VIVE LA LIBERTÉ, RHU Y DYRFA - MAE NAW'N GWEIDDI 'VLL'
/GWRTHRYFELA - ADNEWYDDU, 'VLL'

Em Dbm B
(2) MAE'R BARRUG AR Y LLWYBR MAITH
Dbm A Bm
O'TH GELL I SGWAR Y PERYG
Dbm Bm
YN DEBYG I'TH OBEITHION DI
YN CHWALU AR Y CERRIG
B
MAE DAGRAU YN DY LYGAID DI
Dbm A
WRTH GLYWED RHU Y DYRFA
Bm
YN ATSAIN DROS Y MURIAU TAL
"DAW RHYDDID O'R RHYFELA!"

CYT: CYT

F#m E B
MID-8 AR Y PEDWERYDD AR DDEG O ORFFENNAF YM MIL SAITH WYTH DEG NAW
G#m C#m A B F#m
MILWYR Y BRENIN YM MHARIS, A RHAGOR YN DISGWYL GERLLAW.

Em Dbm B
(3) MAE'R DESGEDD CHWERW WRTHI'N CNOI ~~YN NGWAED~~
YN NGWAED Y WERIN BOBOL
Dbm Bm
CYFIAWNDER DDAW I'R DEYRNAS HON
Abm D
GOGONIANT I'R FUDDUGOL!

CYT.

2ND MID-8 Em D A F#m Bm A G Em A F#m Em

CYT.